*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **13 Mai 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol 01745 535286** |
| Pwnc | **Cynllun Gwella a Llesiant 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Ym mis Rhagfyr 2018, cytunodd Awdurdod Tân ac Achub (yr ATA) y byddai Gweithgor Cynllunio, yn cynnwys pob aelod o'i Banel Gweithredol, yn cynnal y gwaith manwl sy'n gysylltiedig â datblygu ei amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2020/21.

2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o hynt y Gweithgor Cynllunio ac yn ceisio argymhelliad ffurfiol gan y Panel Gweithredol i'w cyflwyno i'r ATA ar 17 Mehefin 2019.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Mae'r ATA eisoes wedi mabwysiadu dau amcan llesiant tymor hir (gweler atodiad 1) ond bydd ei waith cynllunio tymor byr ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn yn siŵr o ddatblygu a newid fel y bo'n briodol.

4 Er mwyn cael Cynllun Gwella a Llesiant blynyddol erbyn Ebrill 2020 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, bydd angen i'r Awdurdod fod wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch ei fwriadau ar gyfer y Cynllun hwnnw dros yr haf a bod wedi gosod ei gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf erbyn Rhagfyr 2018. Yna, bydd Cynllun drafft 2020/21 yn cael ei baratoi i'w gymeradwyo'n derfynol gan yr ATA ym mis Mawrth 2020.

5 Cyfarfu Gweithgor Cynllun Gwella'r ATA dair gwaith i ystyried y Cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf, a phenderfynodd argymhell i'r Panel Gweithredol y dylai ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod eleni ganolbwyntio ar ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol i'r ATA ei mabwysiadu o fis Ebrill 2020 ymlaen. Byddai hyn yn cyd-fynd â'i ail amcan llesiant.

6 Fodd bynnag, cyn cwblhau'r Strategaeth Amgylcheddol yn derfynol rhaid i'r ATA ganiatáu amser i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill gael dweud eu dweud ar yr hyn sydd yn y strategaeth. Yna, bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn gallu cael eu hystyried gan yr ATA yn yr hydref a chael sylw wrth osod cyllideb 2020/21 ym mis Rhagfyr 2019 ac wrth baratoi Cynllun Gwella a Llesiant 2020/21 i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2020.

**ARGYMHELLIAD**

7 Bod y Panel Gweithredol yn argymell, i'r ATA yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2019, gynnig drafft ar gyfer yr ymgynghoriad ar sail datblygu Strategaeth Amgylcheddol i'w mabwysiadu gan yr ATA o fis Ebrill 2020 ymlaen.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

8 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

**CEFNDIR**

9 Rhaid i'r ATA gyhoeddi amcanion gwella blynyddol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009. Rhaid iddo hefyd gyhoeddi amcanion llesiant tymor hir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a chymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

10 Mae disgwyl i'r ATA gynnwys pobl eraill yn y broses o benderfynu ar ei amcanion ar gyfer y dyfodol ac ymgynghori cyn gwneud penderfyniadau terfynol. Fel arfer, ystyrir bod 12 wythnos o gyfnod ymgynghori yn gyfnod priodol yn y rhan fwyaf o achosion, er bod modd amrywio hyn. Mae disgwyl hefyd fod ymgynghoriadau cyhoeddus yn cael ei cynnal yn unol ag egwyddorion penodol (gweler atodiad 2).

11 Mae amserlen gryno (gweler atodiad 3) yn nodi'r camau ar gyfer llunio Cynllun yr ATA ar gyfer 2020/21.

**CYFLWYNIAD**

12. Cyfarfu'r Cyfarfod Gweithgor Cynllunio'r ATA dair gwaith rhwng Ionawr a Mawrth 2019 i wneud y gwaith manwl sy'n gysylltiedig â datblygu ei amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2020/21.

13. Yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2019, fe wnaeth yr Aelodau adolygu sefyllfa cyllideb yr ATA ar gyfer 2019/20 a nodi'r meysydd ansicr a allai gael effaith sylweddol ar yr ATA, gan gynnwys canlyniad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru a hefyd ganlyniadau'r negodiadau cenedlaethol ar gyflogau diffoddwyr tân.

14. Hefyd, bu'r Aelodau'n adolygu'r ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus yr ATA yn 2018, a oedd yn dangos gwerthfawrogiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a chefnogaeth iddo, ond a oedd hefyd yn dangos bod disgwyl i'r arbedion effeithlonrwydd barhau i gael eu gwneud ond heb leihau gwasanaethau rheng flaen.

15. Wrth edrych ymlaen, bu'r Aelodau'n ystyried yr effaith ar y Gwasanaeth oherwydd newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol, ac ar dueddiadau poblogaeth yn y dyfodol a lefel y galw am wasanaethau ataliol yn y gymuned.

16. Roedd cyfarfod y Gweithgor ar 25 Chwefror 2019 yn canolbwyntio ar yr agweddau Diogelwch yn y Cartref sy'n rhan o waith diogelwch cymunedol y Gwasanaeth, yn enwedig yr Ymweliadau Diogel ac Iach sy'n cael eu cynnal i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Ar ôl ystyried cyfanswm y costau yn fanwl, ac oherwydd gwerth cyfunol y gwaith hwn, penderfynodd yr Aelodau beidio ag ystyried y posibilrwydd o drefnu contract allanol ar gyfer darpariaeth bresennol yr Ymweliadau Diogel ac Iach.

17. Yn y cyfarfod ar 25 Mawrth 2019, bu'r Aelodau'n ystyried y fantais o ddatblygu strategaeth amgylcheddol yn cynnwys, er enghraifft:

- cynllunio adnoddau ar gyfer gweithgareddau yn ymwneud â thywydd eithafol megis llifogydd eang a mwy o danau glaswellt;
- addysgu'r cyhoedd a chydweithio â sefydliadau eraill i leihau effaith digwyddiadau'n ymwneud â'r tywydd ar gymunedau lleol;
- monitro a rheoli'r defnydd o ynni a thanwydd yn y Gwasanaeth a rheoli gwastraff;
- diwygio polisïau caffael a threfniadau cyfrifyddu;
- gwneud cyfraniadau cadarnhaol at fioamrywiaeth.

18. Er bod Datganiadau ar yr Amgylchedd a Pholisi Ynni wedi cael eu mabwysiadu sawl blwyddyn yn ôl, roedd yr Aelodau'n cydnabod bod Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r ATA a'r Cynllun Gweithredu wedi colli momentwm tra oedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei chyflwyno. Er hynny, roeddent yn cydnabod y byddai mantais yn dod o roi bywyd newydd I'r gwaith hwn nawr drwy ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol i redeg o fis Ebrill 2020 ymlaen. Nodwyd hefyd fod pob un o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi adnabod blaenoriaethau sydd â ffocws amgylcheddol ac y gellid cael cyfle i gysoni strategaeth yr ATA gyda rhai o'r blaenoriaethau hynny.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol wrth gytuno ar y camau tuag ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae perthynas bendant rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2020/21 a lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Rhaid cytuno ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21 ym mis Rhagfyr 2019, a'i chadarnhau erbyn canol Chwefror 2020. |
| Cyfreithiol | Mae'n cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ym maes llesiant a chynllunio gwelliannau. |
| Staffio | Bydd yr effaith ar lefelau staffio yn dibynnu ar benderfyniad yr ATA yn y pen draw, ond ni ellir canfod unrhyw oblygiadau uniongyrchol o'r adroddiad hwn. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd yr effaith ar yr agweddau hyn yn cael ei hasesu'n llawn yn unol â phenderfyniad yr ATA yn y pen draw, ond ni ellir canfod unrhyw oblygiadau uniongyrchol o'r adroddiad hwn. |
| Risgiau | Cafodd y risgiau posibl eu hystyried yng nghorff yr adroddiad, ond bydd angen asesiad pellach fel rhan o broses benderfynu derfynol yr ATA. |

**Amcanion Llesiant**

Dyma amcanion llesiant hirdymor Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru:

A. Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i fod yn ddiogel os yw tanau o'r fath yn digwydd;

B. Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac sydd wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pan a ble mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

**Ymgynghori: Egwyddorion Gunning**

Boed yna ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori ai peidio, pan gynhelir ymgynghoriad rhaid gwneud hynny'n deg. Bydd yr hyn sy'n deg yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a natur y cynigion dan ystyriaeth.

Yn amodol ar ofynion cyffredinol tegwch, bydd gan y penderfynwr ddisgresiwn eang ynghylch sut y dylid cynnal yr ymgynghoriad a beth y dylid ymgynghori yn ei gylch.

Rhaid i'r ymgynghoriad gydymffurfio â'r egwyddorion canlynol hefyd (fe'u gwelwir yn egwyddorion Gunning ar ôl yr achos lle cawsant eu nodi, neu ofynion Sedley ar ôl y bargyfreithiwr wnaeth eu hawgrymu yn yr achos hwnnw):

- Rhaid cynnal yr ymgynghoriad pan mae'r cynnig yn cael ei ffurfio. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus gadw meddwl agored yn ystod yr ymgynghoriad a rhaid iddynt beidio â bod wedi gwneud y penderfyniad yn barod, ond hwyrach fod ganddynt rai syniadau am y cynnig.
- Rhaid cyflwyno rhesymau digonol dros y cynnig er mwyn galluogi ystyriaeth ac ymateb deallus. Rhaid i'r ymgynghoreion gael digon o wybodaeth er mwyn gallu gwneud cyfraniad gwybodus at y broses.
- Rhaid caniatáu digon o amser i ystyried ac ymateb. Rhaid i amseriad ac amgylchedd yr ymgynghoriad fod yn briodol, rhaid rhoi digon o amser i bobl ddatblygu barn ar sail gwybodaeth ac yna roi adborth, a rhaid rhoi digon o amser i ddadansoddi'r canlyniadau.
- Rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad yn gydwybodol.

Mae'n ddoeth i benderfynwr ddangos yn ei benderfyniad ei fod wedi cynnal ymgynghoriad a'i fod wedi rhoi pwys priodol i'r sylwadau a ddaeth i law. Gallai hyn olygu bod rhaid i'r penderfynwr ddangos ei fod wedi deall y pwyntiau sy'n cael eu gwneud gan yr ymatebion a'i fod wedi'u hystyried.

Cydnabyddiaeth: http://law.gov.wales/constitution-government/public-admin/intro-admin-law/welsh-government-guidance-on-making-good-decisions/has-any-consultation-been-carried-out-fairly-and-properly/what-are-the-requirements-for-any-consultation-that-is-carried-out/?lang=en#/constitution-government/public-admin/intro-admin-law/welsh-government-guidance-on-making-good-decisions/has-any-consultation-been-carried-out-fairly-and-properly/what-are-the-requirements-for-any-consultation-that-is-carried-out/?tab=overview&lang=cy

**<u>Amserlen gryno ar gyfer creu Cynllun yr ATA ar gyfer 2020/21</u>**

| DYDDIAD | CYFARFODYDD | CAM GWEITHREDU |
|---|---|---|
| Ionawr – Mawrth 2019 | Gweithgor Cynllunio | Gwneud y gwaith manwl sy'n gysyllteidig â datblygu amcanion drafft ar gyfer 2020/21 ac ymlaen, i'w gymeradwyo gan yr ATA llawn. |
| 13/05/2019 | Panel Gweithredol | Cytuno ar argymgyllion i'r ATA ym mis Mehefin 2019 ar gyfer cynnig drafft ar gyfer ymgynghori. |
| 17/06/2019 | ATA | Ystyried argymhellion gan y Panel Gweithredol a chytuno ar sail yr ymgynghoriad a gynhelir gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd dros yr haf. |
| Gorffennaf – Hydref 2019 | Ymgynghori gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd. | |
| 21/10/2019 | Panel Gweithredol | Ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a chytuno ar argymhellion i'w cyflwyno i'r ATA llawn ym mis Rhagfyr 2019. |
| 16/12/2019 | ATA | Cytuno ar gyllideb ddrafft yr ATA ar gyfer 2020/21 ac ar amcanion i'w hymgorffori yn ei Gynllun drafft ar gyfer 2020/21. |
| Chwefror 2020 | Panel Gweithredol | Ystyried y drafft sydd bron yn derfynol o Gynllun 2020/21 i'w gymeradwyo gan yr ATA llawn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. |
| 15/02/2020 | Y diwrnod olaf ar gyfer rhoi gwybod i'r awdurdodau cyfansoddol beth fydd eu cyfraniadau ariannol ar gyfer 2020/21. | |
| Mawrth 2020 | ATA | Cymeradwyo Cynllun drafft 2020/21 i'w gyhoeddi. |
| 31/03/2020 | Y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi Cynllun yr ATA ar gyfer 2020/21. | |